**Elin Jones AM/AC**
**Y Gweinidog dros Faterion Gwledig**
**Minister for Rural Affairs**

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Ein cyf/Our ref:
SF/EJ/0069/10

Rhodri Glyn Thomas AC
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

26 Mawrth 2010

Annwyl Rhodri

**Y Polisi Amaethyddol Cyffredin : Cosbau ar ffermwyr**

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 3 Mawrth 2010 yn gofyn am y cosbau sydd wedi'u rhoi ar ffermwyr sy'n derbyn arian trwy gynlluniau amaeth Ewropeaidd am gamgymeriadau yn eu gwaith papur neu am dorri rheoliadau Ewropeaidd yn y pedair blynedd ariannol diwethaf, wedi'u rhannu yn ôl achosion a chategorïau unigol.

Mae taliadau i ffermwyr yn cael eu gwneud fesul blwyddyn gynllun, nid fesul blwyddyn ariannol. Felly, rydym wedi darparu'r wybodaeth i chi ar gyfer y pedair blwyddyn gynllun diwethaf. Rydym yn dangos y data yn ôl y categorïau o gosbau y mae gofyn inni eu cofnodi o dan y rheoliadau. Rwy'n gobeithio'n fawr y bydd hynny'n ddigon i helpu'r pwyllgor i ystyried y mater hwn.

Fe welwch fod gwerth y cosbau wedi codi'n fawr yn 2009 ac mai cosbau trawsgydymffurfio sy'n gyfrifol am y cynnydd hwnnw. Cosbau am dorri rheolau adnabod a symud gwartheg yw'r rhan fwyaf ohonynt. Hyd yn oed gyda'r cynnydd hwn, mae cosbau 2009 ond yn cynrychioli 0.6% o gyfanswm y cymhorthdal a dalwyd yn 2009.

Newidiadau yn y system gosbau yn sgil Archwiliad gan yr CE ym mis Rhagfyr 2008 a arweiniodd at y cynnydd hwn. Roedd yr Archwiliad yn feirniadol o lefel y gosb am dorri rheolau trawsgydymffurfio yn 2008 ac yn y blynyddoedd cyn hynny. Mae'r system gosbi bellach yn bodloni gofynion yr Archwiliad a'r rheoliadau sy'n dweud y dylai ffermwyr sy'n torri rheol trwy esgeulustod gael cosb o 3%.

Hefyd, dywedodd archwilwyr yr CE eu bod yn credu pe bai'r ffermwr eisoes wedi cael ei rybuddio am gamarfer (h.y. tramgwydd), yna ni allai fod yn gamarfer trwy esgeulustod. Cafodd diffiniad y gair 'bwriadol' ei newid ac arweiniodd hynny at gynnydd yn y cosbau a roddwyd am dorri rheol yn fwriadol, yn enwedig o safbwynt yr angen i roi tagiau clust newydd o fewn 28 diwrnod ar ôl eu colli.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
English Enquiry Line 0845 010 3300
Ffacs * Fax 029 2089 8522
Gohebiaeth: Elin.Jones@Wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

Enghraifft o dramgwydd bwriadol yw bod archwiliad yn dangos bod gwartheg wedi colli tagiau clust a bod y ffermwr yn cael rhybudd ysgrifenedig bod yn rhaid iddo gael tagiau clust newydd yn lle’r rhai a gollwyd o fewn 28 diwrnod, yn unol â’r rheoliadau. Mae ail archwiliad yn cael ei gynnal sy’n dangos nad oes tagiau clust newydd wedi’u harchebu o fewn 28 diwrnod. O ganlyniad, caiff y ffermwr ei gosbi am dorri rheol yn fwriadol am beryglu iechyd pobl ac anifeiliaid.

Hefyd, os gwelir mewn archwiliad o’r fferm neu archwiliad papur yr un tramgwydd bwriadol am yr eildro, mae rheoliadau’r UE yn gofyn am 100% o gosb. Nid oes gennym ryddid yn hyn o beth.

Fe welwch isod fanylion y cosbau a roddwyd, fesul blwyddyn:

**Blwyddyn gynllun 2006**
**Cynlluniau 2006: Cynllun y Taliad Sengl, Tir Cynnal, Tir Mynydd, Tir Gofal, Premiwm Cnydau Protein, Cymorth Cnydau Ynni**

| Categori'r Gosb | Nifer y ffermwyr | Nifer y cosbau | Dirwy (£) |
|---|---|---|---|
| Cyflwyno'r SAF yn hwyr | 159 | 165 | 34,587.82 |
| Trawsgydymffurfio | 499 | 518 | 297,225.23 |
| Gorddatgan | 719 | 923 | 387,855.31 |
| Tanddatgan | 248 | 252 | 22,391.00 |
| Torri rheolau'r Cynllun | 298 | 372 | 113,339.49 |
| Cyfanswm: | 1923 | 2230 | 855,398.85 |

**Nifer y cosbau ar gyfer pob elfen Trawsgydymffurfio**

| | |
|---|---|
| Trawsgydymffurfio Lles Anifeiliaid | 0 |
| Trawsgydymffurfio Iechyd pobl, anifeiliaid a phlanhigion | 476 |
| Trawsgydymffurfio Yr Amgylchedd | 17 |
| Trawsgydymffurfio CAAD (GAEC) | 25 |

**Cyfanswm y cymhorthdal a dalwyd yn 2006: £275,325,321.65**

**Blwyddyn gynllun 2007**
**Cynlluniau 2007: Cynllun y Taliad Sengl, Tir Cynnal, Tir Mynydd, Tir Gofal, Premiwm Cnydau Protein, Cymorth Cnydau Ynni**

| Categori'r Gosb | Nifer y ffermwyr | Nifer y cosbau | Dirwy (£) |
|---|---|---|---|
| Cyflwyno'r SAF yn hwyr | 142 | 210 | 15,127.42 |
| Trawsgydymffurfio | 292 | 514 | 231,149.00 |
| Gorddatgan | 974 | 1352 | 654,695.80 |
| Tanddatgan | 172 | 172 | 22,333.93 |
| Torri rheolau'r Cynllun | 209 | 209 | 111,735.99 |
| Cyfanswm: | 1789 | 2457 | 1,035,042.10 |

**Nifer y cosbau ar gyfer pob elfen Trawsgydymffurfio**

| | |
|---|---|
| **Trawsgydymffurfio Lles Anifeiliaid** | 39 |
| **Trawsgydymffurfio Iechyd pobl, anifeiliaid a phlanhigion** | 389 |
| **Trawsgydymffurfio Yr Amgylchedd** | 32 |
| **Trawsgydymffurfio CAAD (GAEC)** | 54 |

**Cyfanswm y cymhorthdal a dalwyd yn 2007: £291,039,787.43**

**Blwyddyn gynllun 2008**
**Cynlluniau 2008: Cynllun y Taliad Sengl, Tir Cynnal, Tir Mynydd, Tir Gofal, Premiwm Cnydau Protein, Cymorth Cnydau Ynni, Cynllun Ffermio Organig (2)**

| Categori'r Gosb | Nifer y ffermwyr | Nifer y cosbau | Dirwy (£) |
|---|---|---|---|
| **Cyflwyno'r SAF yn hwyr** | 151 | 221 | 37,020.12 |
| **Trawsgydymffurfio** | 167 | 293 | 326,964.40 |
| **Gorddatgan** | 525 | 600 | 309,537.94 |
| **Tanddatgan** | 207 | 207 | 43,572.92 |
| **Torri rheolau'r Cynllun** | 83 | 83 | 66,374.85 |
| **Cyfanswm:** | 1133 | 1404 | 783,470.23 |

**Nifer y cosbau ar gyfer pob elfen Trawsgydymffurfio**

| | |
|---|---|
| **Trawsgydymffurfio Lles Anifeiliaid** | 84 |
| **Trawsgydymffurfio Iechyd pobl, anifeiliaid a phlanhigion** | 146 |
| **Trawsgydymffurfio Yr Amgylchedd** | 13 |
| **Trawsgydymffurfio CAAD (GAEC)** | 50 |

**Cyfanswm y cymhorthdal a dalwyd yn 2008: £322,268,930.40**

Mae taliadau'n cael eu gwneud gydol blwyddyn y cynllun. Mae'r ffigurau isod yn dangos y taliadau 2009 sydd wedi'u talu hyd yma.

**Blwyddyn gynllun 2009**
**Cynlluniau 2009: Cynllun y Taliad Sengl, Tir Cynnal, Tir Mynydd, Tir Gofal a'r Cynlluniau Ffermio Organig***

| Categori'r Gosb | Nifer y ffermwyr | Nifer y cosbau | Dirwy (£) |
|---|---|---|---|
| **Cyflwyno'r SAF yn hwyr** | 88 | 128 | 15,458.78 |
| **Trawsgydymffurfio** | 612 | 1059 | 1,561,169.00 |
| **Gorddatgan** | 506 | 597 | 516,913.97 |
| **Tanddatgan** | 95 | 95 | 22,971.29 |
| **Torri rheolau'r Cynllun** | 57 | 57 | 39,724.62 |
| **Cyfanswm:** | 1358 | 1936 | 2,156,237.40 |

**Nifer y cosbau ar gyfer pob elfen Trawsgydymffurfio**

| | |
|---|---|
| **Trawsgydymffurfio Lles Anifeiliaid** | 80 |
| **Trawsgydymffurfio Iechyd pobl, anifeiliaid a phlanhigion** | 939 |
| **Trawsgydymffurfio Yr Amgylchedd** | 6 |
| **Trawsgydymffurfio CAAD (GAEC)** | 34 |

**Cyfanswm y cymhorthdal a dalwyd yn 2009: £362,814,364.11**
* Nid oes Premiwm Cnydau Protein na Chymorth Cnydau Ynni wedi'u talu eto ar gyfer 2009.

Mae rheolau'r holl gynlluniau yn cael eu disgrifio yn Llyfryn Rheolau'r Cais Sengl sy'n cael ei anfon at bob ffermwr sy'n aelod o'r Cynllun Taliad Sengl neu Gynllun amaeth-amgylcheddol. Mae ffermwyr yn gorfod arwyddo datganiad i gadarnhau eu bod wedi darllen a deall holl reolau'r cynlluniau a'u bod yn cytuno i gadw atyn nhw.

Elin Jones

**Elin Jones AC**
**Y Gweinidog dros Faterion Gwledig**